# Cael gwared ar y gofyniad i ddefnyddio'r pictograff 'Do Not Eat' ar ddeunyddiau gweithredol a deallus a ddaw i gysylltiad â bwyd

**Dyddiad lansio:** **13 Gorffennaf 2022**

**Ymateb erbyn:** **10 Awst 2022**

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb mwyaf i'r diwydiannau bwyd a deunydd pecynnu, yn enwedig y rhai sy'n cynhyrchu ar lefel genedlaethol, ac sy'n defnyddio deunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus y bwriedir iddynt, neu y disgwylir yn rhesymol iddynt, ddod i gysylltiad â bwyd. Bydd hefyd o ddiddordeb i ddefnyddwyr.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r pictograff 'Do Not Eat' ar eitemau gweithredol neu ddeallus a roddir ar farchnad Prydain Fawr. Mae Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n ymwneud â deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon, ac o dan delerau cyfredol Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Bydd cynhyrchion a roddir ar farchnad Gogledd Iwerddon yn parhau i ddefnyddio pictograff 'Do Not Eat' yr UE.

## Diben yr ymgynghoriad

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn cynnig cael gwared ar y gofyniad i ddefnyddio'r pictograff 'Do Not Eat' ar eitemau sy'n cael eu rhoi ar farchnad Prydain Fawr. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn rhanddeiliaid ar y newid polisi arfaethedig i'r gofynion o ran y pictograff 'Do Not Eat' ar gyfer deunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus ar y farchnad ym Mhrydain Fawr.

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at tim.chandler@food.gov.uk

## Manylion yr ymgynghoriad

Wedi i'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r UE ac wrth aros am ymateb terfynol gan y Comisiwn Ewropeaidd (gweler isod), nid yw'r gofyniad deddfwriaethol ar gyfer defnyddio'r pictograff 'Do Not Eat' ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus a roddir ar farchnad Prydain Fawr yn briodol os yw'r UE yn cadarnhau ei fod yn berchen ar hawlfraint y pictograff. Yn unol â hynny, os oes gan yr UE hawlfraint ar y pictograff neu os mai'r UE yw deiliad y pictograff, cynigir y dylid cael gwared ar ofyniad Prydain Fawr i'w gynnwys (lle y mae'n dechnegol bosib). Byddai hyn yn berthnasol yn unig i fusnesau wedi'u lleoli ym Mhrydain Fawr sy'n cynhyrchu deunyddiau gweithredol a deallus ar gyfer marchnad Prydain Fawr. Bydd y gofyniad gorfodol cyfredol, i ddefnyddio'r geiriau 'DO NOT EAT' ar ddeunyddiau ac eitemau perthnasol, yn parhau i fod yn berthnasol.

**Sylwch fod y newid arfaethedig hwn yn parhau i fod yn un dros dro tra byddwn yn cael safbwynt pendant gan y Comisiwn Ewropeaidd.**

Byddai angen i ddeunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus a gynhyrchir ar gyfer marchnad Gogledd Iwerddon neu farchnad yr UE barhau i gydymffurfio â gofynion yr UE, sef defnyddio pictograff 'Do Not Eat' lle mae'n dechnegol bosib. Yn unol â gofynion cyfredol yr UE, byddai'r geiriau gorfodol 'DO NOT EAT' yn cyd-fynd â hyn.

Caniateir i fusnesau yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gosod nwyddau yn gyfreithlon ar farchnad Gogledd Iwerddon yn unol â gofynion yr UE, eu rhoi ar farchnad Prydain Fawr yn unol â'r gofynion.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r holl ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, dim ond y rhai sy'n weithredol neu'n ddeallus. Mae rhai enghreifftiau

yn cynnwys carthysyddion (*scavengers*) ocsigen ac amsugnwyr lleithder sy'n cael eu rhoi mewn pecynnau bwyd. Gellir cael rhagor o fanylion yn yr adran ar ddeddfwriaeth berthnasol.

## Deddfwriaeth berthnasol

Cyn ymadael â'r UE, roedd y gyfraith sy'n ymwneud â deunyddiau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd wedi'i chwmpasu o dan ddeddfwriaeth deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd. Ar ôl i'r UE ymadael, mae Rheoliad (EC) Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd wedi'i ddargadw (*retained*) (yn amodol ar ddiwygiadau) ac mae bellach yn rhan o gyfraith bwyd ddomestig, sy'n gymwys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae Erthygl 11 o Reoliad a ddargedwir (EC) Rhif 450/2009 yn nodi gofynion labelu penodol. Mae'r ddeddfwriaeth ar hyn o bryd yn nodi, "to allow identification by the consumer of non-edible parts, active and intelligent materials and articles or parts thereof shall be labelled, whenever they are perceived as edible, with the words 'DO NOT EAT' (capitalised); and with the pictograph specified in the Regulation, where it is technically possible" (gweler pictograff gofynnol cyfredol isod fel yn y gyfraith a ddargedwir). Mae'r ASB yn cynnig cael gwared ar y gofyniad hwn o ran y pictograff.



DO NOT EAT

## Mater dan sylw

Rydym yn cynnig cael gwared ar y gofyniad i ddefnyddio, lle bo hynny'n dechnegol bosib, y pictograff 'Do Not Eat', ar ddeunyddiau gweithredol neu ddeallus wedi'u bwriadu ar gyfer marchnad Prydain Fawr yn unig lle mae gan yr UE hawlfraint ar gyfer y pictograff neu ei fod yn ddeiliad yr hawlfraint. Bydd defnyddio'r geiriad 'DO NOT EAT' yn parhau i fod yn ofyniad labelu gorfodol ar gyfer deunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus. O ganlyniad i'r newid arfaethedig hwn, efallai y bydd angen diwygiadau canlyniadol pellach

i Reoliad (EC) a ddargedwir Rhif 450/2009 hefyd, i adlewyrchu cael gwared ar y gofyniad hwn.

Rydym yn deall y bydd y cynnig hwn hefyd o ddiddordeb i ddefnyddwyr o safbwynt labelu. Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn bwrw ymlaen â chael gwared ar y gofyniad i gynnwys y pictograff 'Do Not Eat', lle mae'n dechnegol bosib o fewn y gyfraith a ddargedwir os mai dyma'r consenswS.

## Effeithiau

Mae'r ASB wedi ystyried yr opsiwn o ddisodli'r ddelwedd gyda phictograff penodol i Brydain Fawr, a fyddai'n rhoi baich sylweddol posib ar fusnesau sy'n rhoi cynhyrchion perthnasol ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, a byddai hefyd yn creu dargyfeiriad rheoleiddiol ar draws y DU gyda Gogledd Iwerddon yn parhau i ddefnyddio'r pictograff 'Do Not Eat', yn unol â rheoliadau'r UE, sy'n gymwys o dan Brotocol Gogledd Iwerddon. Asesodd yr ASB fod hyn yn anghymesur gan nad yw'r gofyniad i arddangos pictograff yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch defnyddwyr, hynny yw, mae'r geiriau 'DO NOT EAT' yn ofyniad gorfodol, tra bo cynnwys y pictograff yn orfodol lle bo hynny'n dechnegol bosib yn unig (er enghraifft, maint a math o ddefnydd). Gallai cyflwyno pictograff newydd ar gyfer Prydain Fawr arwain at darfu. Felly penderfynwyd mai'r dull mwyaf effeithiol gyda'r baich lleiaf oedd ymyrryd cyn lleied â phosib, gan ddileu'r gofyniad wrth barhau i gynnal lefel uchel o ddiogelwch i ddefnyddwyr.

Rydym o'r farn bod effaith a baich y newid arfaethedig hwn, sef yr ymyrraeth ofynnol yn unig, yn isel iawn. O ganlyniad, nid ydym wedi creu Asesiad Effaith Rheoleiddiol ysgrifenedig llawn.

Mae ein hasesiad o'r effaith yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodwyd trwy ymchwil gychwynnol yr ASB, a thrafodaethau blaenorol gyda rhanddeiliaid. Y rhagdybiaethau hyn yw:

- Bydd costau ymgyfarwyddo untro i weithredwyr busnesau sy'n gweithgynhyrchu'r deunyddiau a'r eitemau hyn. Rydym wedi amcangyfrif y bydd yn cymryd hyd at ddwy awr i weithredwyr busnesau ddarllen y ddeddfwriaeth ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Rydym hefyd wedi amcangyfrif y bydd yn cymryd hyd at ddwy awr i rannu'r wybodaeth hon â

staff allweddol. Yn seiliedig ar nifer y gweithredwyr busnesau hysbys sydd wedi'u lleoli ym Mhrydain Fawr ac sy'n cynhyrchu deunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus, cyfanswm y gost ymgyfarwyddo fydd £1,710 ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

- Bydd hefyd costau ymgyfarwyddo untro i gyrff gorfodi o ran y diwygiadau arfaethedig i Reoliad (EC) Rhif 450/2009, gan gynnwys unrhyw ganllawiau sy'n cyd-fynd â hyn. Rydym wedi amcangyfrif y bydd yn cymryd hyd at ddwy awr i gyrff gorfodi ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd. Rydym wedi amcangyfrif y bydd yn cymryd hyd at ddwy awr i rannu'r wybodaeth hon â staff sydd â diddordeb. Cyfanswm y costau ymgyfarwyddo i gyrff gorfodi ledled Cymru, Lloegr a'r Alban fydd £53,217.

- Rydym yn deall y bydd y newid hwn yn effeithio ar gyfran fach o fusnesau ym Mhrydain Fawr yn unig. Rydym yn rhagweld mai dim ond nifer cyfyngedig o fusnesau fydd yn arbenigo mewn cynhyrchu deunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus at ddefnydd cyswllt.

- Ar gyfer gweithredwyr busnesau ym Mhrydain Fawr sy'n rhoi cynhyrchion ar farchnad Prydain Fawr, dim ond y geiriad gorfodol y byddai angen iddynt ei ddefnyddio. Er y cynigir na fydd yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth i gynnwys pictograff 'Do Not Eat' lle mae'n dechnegol bosib, nid yw hyn yn atal gweithredwr rhag parhau i'w ddefnyddio pe byddent yn dewis gwneud hynny. Dylai gweithredwyr busnesau ym Mhrydain Fawr barhau i fod yn ymwybodol, pan fo'r UE yn cadw hawlfraint y pictograff, yr argymhellir eu bod yn sicrhau eu bod yn cadw at y gofynion cyfraith bwyd ac eiddo deallusol diweddaraf.

- Gan nad yw'r cynnig hwn yn golygu gwahardd defnyddio'r pictograff (mae'n ymwneud â dileu'r gofyniad i'w ddefnyddio o fewn deddfwriaeth Prydain Fawr), ni fydd cyfnod pontio. Yn lle hynny, byddem yn disgwyl, yn ymarferol, i weithredwyr busnesau gael y cyfle i ddisbyddu eu stoc sy'n weddill sy'n arddangos y pictograff. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn, cyfrifoldeb gweithredwr y busnes fyddai parhau i roi stoc ar farchnad Prydain Fawr. Argymhellir felly y dylid cadw at unrhyw ofynion newydd o ran cynhyrchu

deunyddiau gweithredol a deallus newydd a ddaw i gysylltiad â bwyd ar gyfer marchnad Prydain Fawr.

- Gan y bydd defnyddio'r geiriau 'DO NOT EAT' yn parhau i fod yn orfodol ar gyfer yr holl ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus o'r fath, nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar ddefnyddwyr gan mai dim ond lle mae'n dechnegol bosib gwneud hynny y mae'r pictograff cyfredol yn cael ei ddefnyddio. Nid yw'n effeithio ar y gofyniad sylfaenol cyfredol, sef sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol nad yw'r cynhyrchion hyn yn fwyd.

Darperir costau ymgyfarwyddo amcangyfrifedig yr ASB ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn Atodiad B.

Rydym yn croesawu barn eich rhanddeiliaid, ac unrhyw dystiolaeth ategol lle bynnag y bo modd, ar ein hasesiad o effaith y newid hwn ac yn arbennig ar y rhagdybiaethau uchod.

## Y broses ymgysylltu ac ymgynghori

Mae ymgynghoriad cyhoeddus pedair wythnos yn cael ei lansio i roi cyfle i bartïon sydd â buddiant wneud sylwadau ar y cynigion polisi ar gyfer deunyddiau gweithredol a deallus a ddaw i gysylltiad â bwyd. Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn gymharol fyr o gymharu â'r hyd optimaidd o ddeuddeg wythnos. Mae'r ymgynghoriad hwn yn fyrrach oherwydd bod angen i'r ASB gwblhau'r broses gan ganiatáu digon o amser ar gyfer defnyddio pwerau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ('EUWA'), sy'n dod i ben ddiwedd 2022. Byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio i roi'r ddeddfwriaeth ar waith pe bai'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol.

Bydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus, a bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ASB o fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Cyn yr ymgynghoriad hwn, cysylltodd yr ASB â nifer fach o weithredwyr busnesau ym Mhrydain Fawr yr oedd yn hysbys eu bod yn cynhyrchu deunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus a ddaw i gysylltiad â bwyd ar gyfer y farchnad genedlaethol. Ar adeg yr ymgysylltu hwn, nododd yr ASB ei bod yn debygol y byddai angen newid y pictograff wrth i'r DU baratoi i ymadael â'r UE. Ni wnaeth ein dull cychwynnol nodi'r

cynigion yn ffurfiol. Mae'r ymgynghoriad llawn hwn bellach yn rhoi cyfle i bawb sydd â buddiant gyflwyno eu barn ar y cynigion diweddaraf.

Rydym wedi nodi chwe chwestiwn penodol isod yr hoffem gael barn rhanddeiliaid arnynt (lle bo hynny'n berthnasol). Rydym hefyd yn croesawu sylwadau gan randdeiliaid cysylltiedig eraill.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ein nod yw bwrw ymlaen â'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol a datblygu cyngor a chanllawiau i randdeiliaid.

## Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

**1.** Ydych chi ar hyn o bryd yn defnyddio'r pictograff ar unrhyw rai o'r deunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus rydych chi'n eu cynhyrchu? Os ydych chi, pa fath o ddeunyddiau ac eitemau?

---

**2.** Ar gyfer busnesau sydd ar hyn o bryd yn cynhyrchu deunyddiau ac eitemau sy'n defnyddio'r pictograff cyfredol, i ba farchnadoedd (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol) yr ydych yn cyflenwi?

---

**3.** A oes gennych chi unrhyw farn neu bryderon am y dull arfaethedig o gael gwared ar y gofyniad cyfredol (hynny yw, lle mae'n dechnegol bosib cymhwyso) o ran y pictograff 'Do Not Eat'?

---

**4.** A ydych chi'n rhagweld unrhyw effeithiau ar fasnachu deunyddiau gweithredol a deallus a ddaw i gysylltiad â bwyd, er enghraifft, yn y DU (rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon) a thu allan i'r DU?

---

**5.** A oes gan ddefnyddwyr yn benodol unrhyw farn gref am y cynnig o safbwynt labelu? Beth yw eich barn am yr angen am bictograff mewn amgylchiadau lle byddai'n dechnegol bosib ei arddangos?

---

**6.** A oes unrhyw effeithiau neu ystyriaethau eraill sy'n deillio o gael gwared ar y pictograff hwn nad ydym wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn? Rydym yn croesawu unrhyw safbwyntiau neu sylwadau eraill sydd gennych mewn perthynas â'r mater hwn.

## Dogfennau perthnasol eraill

Rheoliad (EC) a Ddargedwir Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

## Ymatebion

Rhaid i ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 10 Awst 2022. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

**Anfonwch ymateb at tim.chandler@food.gov.uk**

Bydd ymatebion yn cael eu rhannu rhwng yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban. I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau.

## Rhagor o wybodaeth

Os oes angen y ddogfen hon arnoch chi mewn fformat haws ei ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi.

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Tim Chandler
Cangen Ychwanegion, Cyflasynnau a Deunyddiau Cyswllt Bwyd
Is-adran Polisi Bwyd

# Atodiad A:  Rhestr o bartïon â buddiant

- EmcoUK
- Valspar
- O2Zero
- OxyFreeOxygenAbsorbers
- Elliott Absorbants
- Sirane
- Addmaster
- Parkside Flexibles
- Devro
- Paramount Packaging
- Dupont UK
- Active Packaging
- Sirap UK
- Synpac Limited
- Intertek
- ColorMatrix Group

# Atodiad B: Amcangyfrif o’r costau ymgyfarwyddo ar gyfer Cymru, Lloegr a’r Alban

| - | Amser ymgyfarwyddo (oriau) | Amser rhannu gwybodaeth (oriau) | Nifer y staff | Cyflog/awr | Amcangyfrif o’r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd | 2.0 | 2.0 | 372 | £25.13 | £37,392 |
| Swyddogion Safonau Masnach | 2.0 | 2.0 | 174 | £20.28 | £14,115 |
| Rheolwyr Busnesau | 2.0 | 2.0 | 15 | £28.50 | £1,710 |
| **Cyfanswm** | - | - | - | - | £53,217 |

## Rhagdybiaethau

Bydd angen i un rheolwr ym mhob busnes ymgyfarwyddo â’r canllawiau ac yna rhannu’r wybodaeth â staff eraill;

Bydd angen i un Swyddog Iechyd yr Amgylchedd/Swyddog Safonau Masnach ym mhob awdurdod lleol ymgyfarwyddo â’r canllawiau newydd a rhannu’r wybodaeth â staff eraill;

Bydd yr holl staff eraill yn cael gwybod gan swyddogion arweiniol/rheolwyr busnes trwy gyfarfodydd busnes fel arfer;

Yn sgil adborth blaenorol, amcangyfrifwyd ei fod yn cymryd 2 awr i ymgyfarwyddo, a 2 awr arall i rannu’r wybodaeth â staff eraill.